

Cyngor Cymuned Betws-y-Coed
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 10fed Ragfyr 2018

Presennol - Gareth Wynne Cadeirydd, Marion Bettenev, Siân Godbert , Gwawr Jones, Janet Charlton, Neil Pringle, Cyng Elisabeth Roberts, Caerwyn Roberts, Clerc.
Ymddiheuriadau -- Nick Corney

Datgan diddordeb – Dim datganiad

Cofnodion

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod y 5ed Dachwedd 2018.

Mr Neil Pringle

Estynnwyd croeso cynnes gan y Cadeirydd i Mr Neil Pringle yn aelod cyfethol o'r Cyngor Cymuned.

Materion yn codi

(1)Yr Heddlu

Yr oedd SCHG Jonathan Thomas yn bresennol a chyfeiriodd at y materion canlynol ;

[a] Er i fis Tachwedd fod yn fis eitha' tawel, bu digwyddiad sydd yn debygol fod sipsiwn wedi bod o gwmpas ac wedi targedu pobl oedrannus a chodi prisiau hollol afresymol am waith garddio nad oedd ei angen. Deallwyd mai modur Land Rover Discovery lliw gwyn rhif YH64 CJI oedd ganddynt au bod o ardal Wrecsam.

[b] Roedd lladron wedi bod yn y pentre' ac wedi dwyn yn bennaf o siop Cotswolds.

[1.1] Astudiaeth Dichonoldeb Pont-y-Pair/Ffordd Coed Cynhelir

Dywedodd y Cyng Elisabeth Roberts ei bod yn trefnu cyfarfod gyda Mr Vic Turner [Cyngor BS Conwy] ar Cyngor Cymuned i drafod yr adroddiad.

[1.2] Rheolaeth Cae Llan

Cyfeiriodd y clercc at llythyr oddiwrth Ms Rachel Evans ynglŷn a rheolaeth dyfodol Cae Llan a fyddai'n cynnwys stondinau bwyd. Penderfynwyd anfon llythyr i bob busnes yn amlinellu sefyllfa'r Cyngor.

[1.3] Diffibilriwr

Dywedodd y clercc bod diffibilriwr wedi ei archebu a'i fod ar gael yn y cwpwrdd wrth y ffenest yn y gegin.

Y brif Agenda

[1.4] Materion Ariannol

[a] Cymeradwywyd y taliadau ar derbyniadau [a ddsbarthwyd] a wnaed yn ystod mis Tachwedd 2018.

[b] Y Rhaeadr Ewynnol - Nodwyd y ffigyrau [a ddsbarthwyd] ar gyfer cyfnodau cymharol i ddiwedd Tachwedd 2018

[c] Adolygiad o'r Gyllideb -Cymeradwywyd adolygiad o'r gyllideb i ddiwedd Tachwedd 2018, a baratowyd gan y clerc

[1.5] Llifogydd Pentre' Du

Dywedodd y Cyng Elisabeth Roberts bod bwriad i anfon llythyr ynghylch y llifogydd i'r preswylwyr ym Mhentre' Du a hefyd bod cais am grant i atal llifogydd i gael ei wneud. Deallwyd gan Siân Godbert nad yw warden llifogydd bellach yn ymgymryd ar dyletswyddau a bod angen person ychwanegol. Cytunodd Siân i wneud ymholiadau.

[1.6] Reilffordd Dyffryn Conwy

Gan nodi'r sefyllfa anfodhaol i drefniadau gwasanaethau bws yn lle'r gwasanaethau trên a'r ansicrwydd ynglun a'r trefniadau yn y dyfodol, dywedodd y Cyng Elisabeth Roberts ei bod yn trefnu cyfarfod gyda Mr Ben Davies o Arriva. Y clerc hefyd i anfon llythyr at y Ken Skates AC yn datgan pryder y Cyngor.

[1.7] Eisteddfod Genedlaethol Llanrwst

Penderfynwyd cyfrannu £5,000 tuag at y targed o £10.000 a osodwyd i'r gymuned.

[1.8] Materion Amrywiol

Y clerc i ddilyn y canlynol ymlaen

[a] Manhole ar yr A5 gyferbyn a bwyty'r Bistro, y mater heb gael sylw.

[b] Dim golau ar y golofn gyferbyn a Fferm yr Hendre ar yr A5

[2] Nodwyd y wybodaeth ganlynol

[a] CGGC Gwella Cyfleoedd Chwaraeon

[b] Cymorth i'r Dewrion Sed Fai 2019

Cadeirydd _____